Erthygl 5 Cadeirio'r Cyngor

5.1 RÔL A SWYDDOGAETH CADEIRYDD Y CYNGOR

1 Atebolrwydd

Y Cyngor Llawn

2 Rôl, Pwrpas a Gweithgaredd

2.1 Gweithredu fel symbol o awdurdod democrataidd y Cyngor

Fel pen seremonïol ar y Cyngor, bod yn anwleidyddol a chynnal gwerthoedd democrataidd y Cyngor
Mae'r Cadeirydd yn gweithredu fel llysgennad i holl ddinasyddion y Sir, ac felly mae'n hanfodol bod urddas y swydd yn cael ei diogelu bob amser a bod y protocolau perthnasol yn cael eu dilyn yn fanwl.
Cynrychioli'r Cyngor mewn swyddogaethau dinesig a seremonïol
Annog y cyhoedd i gymryd rhan yng ngweithgareddau'r Cyngor.
Mynychu pa ddigwyddiadau dinesig a seremonïol bynnag y penderfyna'r Cyngor ac ef/hi sy'n briodol.

2.2 Cadeirio cyfarfodydd y Cyngor

Llywyddu yng nghyfarfodydd y Cyngor, fel y gall ei fusnes gael ei gyflawni'n effeithlon gan roi ystyriaeth i hawliau cynghorwyr a buddiannau'r gymuned.
Sicrhau bod y Cyngor yn cynnal ei gyfarfodydd yn unol â Rheolau Sefydlog y Cyngor
Sicrhau bod cyfarfod y Cyngor yn fforwm ar gyfer trafod materion sy'n peri pryder i'r gymuned leol ac yn fan lle gall y cynghorwyr ddal y bwrdd gweithredol a chadeiryddion pwyllgorau i gyfrif.

2.3 Cynnal a hyrwyddo Cyfansoddiad y Cyngor

Cynnal a hyrwyddo dibenion Cyfansoddiad y Cyngor yng nghyfarfodydd y Cyngor a, lle bo angen, dyfarnu ar y dehongliad o'r Cyfansoddiad

2.4 Llywodraethu mewnol, safonau moeseg a chydberthnasau

Hyrwyddo a chefnogi llywodraethu da ar y Cyngor a'i waith
Darparu arweinyddiaeth gymunedol a hyrwyddo dinasyddiaeth weithredol
Hyrwyddo a chefnogi llywodraethu agored a thryloyw
Cefnogi a glynu at berthynas barchus, briodol ac effeithiol â gweithwyr y Cyngor
Glynu at Gôd Ymddygiad yr Aelodau, y Protocol ar gyfer Aelodau a Swyddogion a'r safonau ymddygiad uchaf mewn swydd gyhoeddus.

2.5 Rhaglennu gwaith

Paratoi a rheoli rhaglen waith flynyddol ar gyfer y Cyngor fel ei fod yn cyflawni ei rwymedigaethau cyfreithiol (e.e. pennu'r gyllideb a Threth y Cyngor a threfnu apwyntiadau)

3 Gwerthoedd

Bod yn ymroddedig i werthoedd y Cyngor a'r gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus:

Bod yn Agored ac yn Dryloyw
Gonestrwydd ac Uniondeb
Goddefgarwch a Pharch
Cydraddoldeb a Thegwch
Gwerthfawrogiad o wahaniaethau diwylliannol
Cynaliadwyedd

5.2 MANYLEB PERSON CADEIRYDD Y CYNGOR

I gyflawni ei rôl fel a nodir yn y disgrifiad o'r rôl honno, mae angen y canlynol ar aelod effeithiol:

1 Gweithredu fel symbol o awdurdod democrataidd y Cyngor

Sgiliau siarad cyhoeddus da
Dealltwriaeth fanwl o rôl Cadeirydd y Cyngor a'r protocolau

2 Cadeirio cyfarfodydd y Cyngor

Sgiliau cadeirio cyfarfodydd, er mwyn sicrhau bod y gwaith yn cael ei wneud yn effeithiol a bod pawb sy'n bresennol yn cymryd rhan
Dealltwriaeth o Gyfansoddiad y Cyngor a'r Rheolau Sefydlog

3 Cynnal a hyrwyddo Cyfansoddiad y Cyngor

Dealltwriaeth o Gyfansoddiad y Cyngor
Dealltwriaeth o ran pryd mae angen gofyn cyngor y Swyddog Monitro ar faterion sy'n ymwneud â'r Cyfansoddiad

4 Llywodraethu mewnol, safonau moeseg a chydberthnasau

Dealltwriaeth o rolau swyddogion, aelodau a gwahanol asiantaethau
Parch at wahanol grwpiau ac unigolion ac awydd i weithio gyda hwy
Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Côd Ymddygiad a'r Protocol ar gyfer Aelodau/Swyddogion
Gwybodaeth am werthoedd y Cyngor ac ymrwymiad iddynt

5 Rhaglennu gwaith

Y gallu a'r ddisgyblaeth i gynllunio a rheoli rhaglenni gwaith

5.3 PROFFIL SWYDD IS-GADEIRYDD Y CYNGOR

1 Atebolrwydd

Cadeirydd y Cyngor Sir
Y Cyngor Llawn

2 Rôl, Pwrpas a Gweithgaredd

Cyflawni dyletswyddau'r Cadeirydd yn ei (h)absenoldeb
Cynorthwyo'r Cadeirydd gyda dyletswyddau penodol yn ôl y galw

5.4 MANYLEB PERSON IS-GADEIRYDD Y CYNGOR

I gyflawni ei rôl fel a nodir yn y disgrifiad o'r rôl honno, mae angen y canlynol ar aelod effeithiol:

1 Gweithredu fel symbol o awdurdod democrataidd y Cyngor

Sgiliau siarad cyhoeddus da
Dealltwriaeth fanwl o rôl Cadeirydd y Cyngor a'r protocolau

2 Cadeirio cyfarfodydd y Cyngor yn absenoldeb y Cadeirydd

Sgiliau cadeirio cyfarfodydd, er mwyn sicrhau bod y gwaith yn cael ei wneud yn effeithiol a bod pawb sy'n bresennol yn cymryd rhan
Dealltwriaeth o Gyfansoddiad y Cyngor a'r Rheolau Sefydlog

3 Cynnal a hyrwyddo Cyfansoddiad y Cyngor

Dealltwriaeth o Gyfansoddiad y Cyngor
Dealltwriaeth o ran pryd mae angen gofyn cyngor y Swyddog Monitro ar faterion sy'n ymwneud â'r Cyfansoddiad

4 Llywodraethu mewnol, safonau moeseg a chydberthnasau

Dealltwriaeth o rolau swyddogion, aelodau a gwahanol asiantaethau
Parch at wahanol grwpiau ac unigolion ac awydd i weithio gyda hwy
Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Côd Ymddygiad a'r Protocol ar gyfer Aelodau/Swyddogion
Gwybodaeth am werthoedd y Cyngor ac ymrwymiad iddynt

5 Rhaglennu gwaith

Y gallu a'r ddisgyblaeth i gynllunio a rheoli rhaglenni gwaith